

Cymraeg

Mae trydydd sector Ewrop yn sector economaidd mawr gydag oddeutu 13 miliwn o weithwyr cyfwerth ag amser llawn. Mae'r economi Ewropeaidd a llawer o'n cymorth cymdeithasol a dinesig yn dibynnu'n fawr ar sector iach sy'n gallu denu a chadw pobl dalentog o ansawdd uchel.

Mae'r prosiect Sylfeini ar gyfer y Sector 3 (F4S3 neu Sylfeini ar gyfer y Trydydd Sector), a gyllidir gan raglen Erasmus+, yn cyflwyno rhaglen hyfforddiant cynefino lefel mynediad ar gyfer gweithwyr proffesiynol newydd sy'n dod i mewn i'r trydydd sector. Mae'n gyflwyniad i'r sector, gyda phwyslais ar ddatblygiad personol a sgiliau craidd sy'n benodol i'r sector. Gellir dilysu'r sgiliau a enillir gan gyfranogwyr gyda Bathodynau Agored digidol.

Cafodd y rhaglen hyfforddiant ei pheilota ddwywaith gan y partner lleol yn y pedair gwlad partner ac yn iaith leol Iwerddon, y Ffindir a'r Almaen, ac yn Saesneg yng Nghymru/Prydain Fawr (deunyddiau hefyd ar gael yn Gymraeg). Gwnaeth 105 o gyfranogwyr gwblhau'r hyfforddiant. Casglwyd eu hanghenion sgiliau cyn i'r cwrs ddechrau, a gofynnwyd am adborth ar y diwedd. Cafodd sylwadau hyfforddwyr a phartneriaid prosiect hefyd eu casglu. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd cyfweiliadau mwy cyffredinol â grwpiau bach o gyfranogwyr a dau oruchwyliwr ar y sesiynau cynefino ac effaith yr hyfforddiant.

Canfyddiadau pwysicaf:

1) Gellir trosglwyddo'r deunydd cwrs a'i addasu i amodau cenedlaethol a lleol. I fathau di-ri o fudiadau, fel sefydliadau addysgol, mudiadau ambarél a rhwydweithiau sydd wedi'u hadnoddi'n dda ynghyd â mudiadau trydydd sector, argymhellir ei ailadrodd yn agos at y fersiwn wreiddiol a'i ddefnyddio'n fwy creadigol. Mae angen diwygio rhai rhannau o'r hyfforddiant yn ôl y cyd-destun cenedlaethol, fel deddfwriaeth genedlaethol a'r ffynonellau cyllido sydd ar gael, ond gall y rhan fwyaf o'r deunydd gael eu defnyddio fel y mae neu gyda mân newidiadau. Cynghorir chi i edrych drwy'r adrannau sy'n ymwneud â sgiliau proffesiynol a phersonol hefyd oherwydd rhoddir pwysau gwahanol arnynt mewn diwylliannau gweithio gwahanol.

2) Bu cwrs cynefino ar y cyd ar gyfer cyfranogwyr o fudiadau gwahanol o'r trydydd sector yn llwyddiannus. Gwnaeth y mwyafrif helaeth o gyfranogwyr adrodd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am eu sgiliau. Diolch i ddysgu ar-lein, bu modd ymuno â'r cwrs yn annibynnol o ble roedd y cyfranogwr, gan ehangu'r rhwydwaith o ddysgwyr a gyrhaeddwyd ar draws y rhaglen. Gwnaeth dysgu cymheiriaid luosogi'r safbwyntiau a gynigiwyd yn y deunydd hyfforddi. Canmolwyd y posibilrwydd o feithrin cysylltiadau a rhwydweithio â gweithwyr proffesiynol newydd eraill.



3) Yn gyffredinol, roedd pobl yn fodlon â'r broses ddilysu sgiliau. Croesawyd y Bathodynau Agored gan gyfranogwyr a oedd yn gwerthfawrogi'r dull digidol o ddilyn eu dysgu a derbyn dogfennau, a/neu weld pwy oedd yn weithredol ar gyfryngau cymdeithasol. Mae galw hefyd am dystysgrif fwy traddodiadol ar bapur. Credwyd fod unrhyw ddull o ddilysu sgiliau'n ddefnyddiol, yn enwedig gan y rheini a fyddai'n ymgeisio am swydd arall yn fuan.

4) Credwyd fod y model hyfforddi braid yn hir a thrwm, ac mae angen mynd i'r afael â hyn mewn fersiynau yn y dyfodol. Bydd trefnu fersiwn wedi'i chwtoegi o'r hyfforddiant (e.e. hepgor rhai adrannau) neu gynnig y posibilrwydd o ddewis modiwlau ar sail diddordebau a sgiliau blaenorol cyfranogwyr yn helpu.

Gellir lawrlwytho'r holl ddeunyddiau o wefan y prosiect, www.f4s3.eu.



Fersiwn wreiddiol

Eeva Jeronen, Heidi Ristolainen, Lauren Carroll, CathyAnne Fox, Sebastian Ciolek, Wendy Gilbert & Eve Jones (2022): *Stepping up: stronger skills for new professionals in the Third Sector. Transferability report on piloting induction training programme.*

